

# Cymodi

cerddi'r gadair, Eisteddfod Gadeiriol Chwilog 2016

gan Iestyn Tyne

## Noson allan ym Mharis

heidiau hirwallt

yn oriel datŵs;

Symudant

fel un creadur dan y *strokes*-

yn creu byd

sy'n llawn o sêr

fel byd trwy galeidosgop-

byd llawn hud a lledrith;

byd nad ydyw'n bod.

Byd i ddianc iddo –

seintwar sy'n llawn o serch

a snortio a snogio

a swn saethu?

Rhaeadrau o waed mewn *rave-paint*,

cordiau aflednais

rhwng bwled a sgrech

yn gyngerdd.

---

## Lleisiau

Distaw yw'r wawr

a dagrau'r rhew

yn gyndyn o lifo

rhag ofn.

Swatia'r adar yn fud

yn eu nythod brau

ar frigau o graciau bregus.

Mae hi'n *stalemate*  
yn y ddinas hon,  
a neb yn torri gair  
rhag ofn.

---

### **Nadolig Llawen**

Y 'Dolig yn dyfod,  
ac eirch yn barseli twt  
i'r pridd.

Cipio breuddwydion gweddwon  
yn gynnwys i ebarfiant,  
a'r eira'n dechrau disgyn.

Y byd yn penderfynu  
nad yw dewrder yn ddigon,  
a bod angen dial;  
ateb dial trwy ddial.

Y 'Dolig yn dyfod  
a'i ystyr yn angof;  
Geni un â dawn achub  
ar groes, y rhai fu'n  
dial arno.

---

### **Dangos cariad**

Mae'r awyr yn goch  
o gusanau rhyfel;  
mwig bomiau fel anadl  
cariad yn sibrdw mewn clust,  
a dau rhwng adfeilion  
yn dianc.

Â'u bywydau'n dynn  
mewn dyrnau;  
cyr cydu mewn cysgodion  
a chyfri eu colledion.

Does dim ar ôl  
ond y cyrff a'r brain  
i'w cadw yma;  
Dros y môr  
mae gwlad yr aur-  
gwlad y llaeth a'r mêl;  
mae gobaith.

Dros y môr mae'r un  
a bwyntiodd fys  
i ladd eu plant.

---

### **Cymodi?**

Yn fwndel bach fe ddaethost 'nôl i'r lan;  
i'th orffwys olaf ar y graean llaith-  
Mor frau, a'r môr yn llarpio'r breichiau gwan  
sy'n llonydd yn y dŵr - yn wyn, heb graith  
yn dyst i'th derfyn ddidrugaredd di;  
Dy freuddwyd olaf nawr dan glo yng nghell  
y dwfr; yn gaeth yng ngharchar oer y lli,  
a'th wyneb gwag yn gwyllo'r gorwel pell-  
y linell las fu'n destun hiraeth hud  
i ti, o straeon gwych dy Dad - fan draw  
roedd croeso, cyfarch - gwên a gwres y byd  
yn aros i dy warchod di rhag braw;  
A sylwaist dwyll y geiriau melys hyn  
wrth suddo'n swp o dan yr ewyn gwyn?